13 Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i defnyddio i oleuo ein canfyddiadau'n gyfyngedig i'r ffynonellau hyn. Fe wnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2024.

14 Rydym yn gwneud y gwaith hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol wrth bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu cynhyrchu adroddiad cenedlaethol.

## Yr hyn a ganfuom

15 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor wedi nodi disgwyliadau eglur ar gyfer adrannau wrth gomisiynu gwasanaethau, ond nad oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau y cwrddir â'r rhain yn gyson. Rydym yn nodi isod pam ein bod wedi dod i'r casgliad hwn.

16 Mae'r Cyngor yn dangos rhesymeg glir dros gomisiynu gwasanaethau. Er enghraifft, mae strategaeth caffael a chomisiynu'r Cyngor yn amlinellu'r broses o bennu a yw, a sut y mae, gwasanaeth yn cael ei gomisiynu. Mae'r Cyngor wedi datblygu ffurflen gomisiynu i ategu'r broses hon. Mae'r tîm caffael hefyd yn rhoi cyngor ar y broses hon. Mae hyn yn ysgogi adrannau i ystyried y rhesymeg dros gomisiynu gwasanaethau. Roedd y Cyngor wedi ystyried pam oedd angen a pha un a oedd angen iddo gomisiynu gweithgarwch yn y gwasanaethau y bwriom ni olwg arnynt. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod deall yn glir pam fod gwasanaethau'n cael eu comisiynu, a'r hyn y maent wedi'i fwriadu i'w gyflawni, yn bwysig er mwyn i'r Cyngor allu gwerthuso eu gwerth am arian yn ddiweddarach.

17 Mae gan y Cyngor hefyd drefniadau i gynnal arfarniadau o'r opsiynau i oleuo gweithgarwch comisiynu. Mae strategaeth caffael a chomisiynu'r Cyngor yn amlinellu ei ddull o gyflawni gwerth am arian trwy ystyried gwahanol fodelau darparu a defnyddio technoleg i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y broses gomisiynu. Mae ffurflen gomisiynu'r Cyngor hefyd yn ysgogi gwasanaethau i ystyried ac amlinellu'r ystod o opsiynau darparu sydd ar gael i'r gwasanaeth. Roedd y Cyngor wedi ystyried ystod o opsiynau comisiynu yn y gwasanaethau y gwnaethom ni fwrw golwg arnynt. Mae hyn yn lleihau'r risg o wneud penderfyniadau comisiynu nad ydynt yn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

18 Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor drefniadau i fynd ati'n systematig i ysgogi adrannau i ddechrau ystyried opsiynau comisiynu ar yr adeg briodol. Caiff ymgysylltiad adrannau â llifoedd gwaith comisiynu ei lywio ganddynt hwy yn hytrach na chael ei drefnu'n gorfforaethol. Mae hyn yn creu risg nad yw adrannau'n ymgysylltu â llifoedd gwaith comisiynu ar adeg ddigon cynnar yn y broses gomisiynu. Felly, efallai na fydd gan y Cyngor wastad ddigon o amser i roi ystyriaeth lawn i'r holl opsiynau a ffactorau a allai oleuo penderfyniadau comisiynu.

19 Mae'r Cyngor yn ystyried y ffactorau dros y tymor byr, canolig a hir a all ddylanwadu ar y graddfeydd amser comisiynu. Er enghraifft, fe ddyfarnodd y Cyngor gontract tair blynedd i ddarparu ei wasanaethau cymorth ieuenctid gydag

opsiwn i estyn am ddwy flynedd bellach. Mynegodd swyddogion sut y mae'r ffrâm amser hon yn cyd-fynd â'r cyllid grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a graddfeydd amser polisi a chanllawiau cenedlaethol ar ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae ystyried goblygiadau hirdymor a byrdymor penderfyniadau comisiynu'n lleihau'r risg o beidio â chyflawni gwerth am arian dros y tymor hwy.

20 Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gallai'r gwasanaethau a gomisiynir ganddo effeithio ar ei amcanion llesiant ei hun ac amcanion llesiant partneriaid rhanbarthol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae strategaeth caffael a chomisiynu'r Cyngor yn amlinellu sut y mae comisiynu'n effeithio ar ei amcanion llesiant ei hun ac amcanion llesiant sefydliadau partner ar lefel strategol. Mae ffurflen gomisiynu'r Cyngor yn gofyn i wasanaethau gwblhau asesiad effaith sy'n cynnwys manylion sut y bydd y gwasanaeth a gomisiynir yn effeithio ar amcanion llesiant y Cyngor a'i flaenoriaethau strategol eraill. Mae ystyried goblygiadau ehangach penderfyniadau comisiynu'n gallu helpu'r Cyngor i osgoi dyblygu ac adnabod manteision lluosog sy'n sicrhau deilliannau gwell a gwerth am arian. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wastad yn adnabod y goblygiadau llawn o ran adnoddau wrth gomisiynu gwasanaethau. Er enghraifft, nid yw ffurflen gomisiynu'r Cyngor yn ysgogi meysydd gwasanaeth i ystyried costau rheoli contract. Gan nad yw'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn ystyried goblygiadau llawn penderfyniadau comisiynu o ran adnoddau, ceir mwy o risg y bydd yn dewis opsiynau nad ydynt yn cyflawni'r gwerth gorau am arian.

21 Mae'r Cyngor yn ystyried cyfleoedd ar gyfer cydweithio wrth gomisiynu gwasanaethau. Gweithiodd y Cyngor gyda phartneriaid mewnol ac allanol i helpu i ddatblygu ei strategaeth gaffael. Mae ffurflen gomisiynu'r Cyngor hefyd yn ysgogi adrannau i ystyried pam eu bod yn comisiynu gwasanaeth ac a ydynt wedi ystyried cysylltiadau â phartneriaid mewnol ac allanol wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaeth. Fe wnaeth y gwasanaethau a adolygwyd gennym ni ddarparu tystiolaeth eu bod yn dilyn y broses hon. Mae gan y Cyngor gytundeb caffael-ar-y-cyd gyda Chyngor Sir y Fflint sy'n ysgogi ystyriaeth i ddichonoldeb caffael gwasanaethau ar y cyd. Mae'r cytundeb wedi'i gynnwys yn ffurflen gomisiynu'r Cyngor, sy'n ysgogi adrannau i ystyried cyfleoedd eraill ar gyfer comisiynu ar y cyd ac egluro pam y dewison nhw'r dull arfaethedig. Mae ystyried opsiynau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn bwysig i helpu'r Cyngor i adnabod cyfleoedd posibl i gyflawni gwerth gwell am arian.

22 Mae gweithgarwch cynnwys i oleuo penderfyniadau comisiynu'n digwydd ar sail ad-hoc gan mwyaf. Canfuom dystiolaeth o'r Cyngor yn cynnwys ystod o randdeiliaid i oleuo peth o'i weithgarwch comisiynu. Er enghraifft, gweithiodd y Cyngor gyda thrigolion a phartneriaid allweddol i helpu i oleuo'r broses o gomisiynu cynllun adsefydlu'r DU. Fodd bynnag, mae gweithgarwch cynnwys y Cyngor yn cael ei lywio gan mwyaf gan y maes gwasanaeth perthnasol ac nid yw'n cael ei amlygu fel ystyriaeth strategol yn strategaeth caffael a chomisiynu'r Cyngor. Mae gweithio gyda'r bobl gywir yn bwysig i helpu i sicrhau bod y Cyngor yn comisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ei gymunedau, a bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n cynyddu gwerth am arian i'r eithaf.

23 Mae’r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i fonitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynwyd. Er enghraifft, mae gwasanaeth cymorth ieuenctid y Cyngor yn ystyried adroddiadau rheolaidd yn erbyn amcanion a mesurau ac mae ffurflen gomisiynu'r Cyngor yn ysgogi adrannau i nodi sut y bydd gwerth am arian yn cael ei werthuso. Mae’r Cyngor hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn ei strategaeth caffael a chomisiynu ac yn adrodd ar hynny trwy ei drefniadau herio a chraffu corfforaethol.

24 Fodd bynnag, nid yw’r Cyngor yn mynd ati’n systematig i rannu gwersi a ddysgwyd o’i weithgarwch comisiynu. Mae gwerthuso cost ac effeithiolrwydd trefniadau comisiynu’n bwysig i adnabod meysydd i’w gwella, rhannu gwersi a ddysgwyd, a helpu i sicrhau gwerth am arian.

# Ein hargymhellion i’r Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion i’r Cyngor**

**Argymhellion**

**Cryfhau goruchwyliaeth strategol ar weithgarwch comisiynu**

A1 Mae’r adroddiad hwn yn amlygu anghysonderau posibl o ran sut y mae llifoedd gwaith comisiynu’n cael eu cymhwyso ar draws y Cyngor. I fynd i’r afael â hyn, dylai’r Cyngor gryfhau a gwreiddio’i drefniadau comisiynu ar draws yr holl adrannau. Dylai hyn gynnwys:

- lle y bo’n hysbys, trosolwg o’r gweithgarwch comisiynu y trefnwyd iddo ddigwydd dros y tymor canolig i’w helpu i gynllunio gweithgarwch comisiynu yn y dyfodol mewn modd amserol;
- ystyriaeth i gost lawn gweithgarwch comisiynu (e.e. gan gynnwys costau rheoli contractau); ac
- ystyried yn systematig pa randdeiliaid i’w cynnwys, i oleuo penderfyniadau comisiynu.

**Datblygu trefniadau ffurfiol ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd**

A2 Darparodd y Cyngor dystiolaeth ei fod yn gwerthuso prosesau comisiynu ac yn dysgu gwersi o hyn, ond mae’r gweithgaredd hwn yn anffurfiol ei natur gan mwyaf. I fynd i’r afael â hyn, dylai’r Cyngor gryfhau trefniadau ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd ar draws adrannau a chyda phartneriaid allanol.

